Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DC/RE/0874/17

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-03-18 Papur 8 / Paper 8

4 Ionawr 2018

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Rhagfyr ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ('y Bil').

Rwy'n fwy na pharod i egluro ymhellach y sylwadau a wnaed ym mharagraff 8 o adroddiad eich Pwyllgor.

Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan fod y darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â phwnc 5 (Addysg a Hyfforddiant), pwnc 15 (Lles Cymdeithasol) a phwnc 4 (Datblygu Economaidd) yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a hynny gan fod y Bil yn cynnig sefydlu Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl a fydd â'r swyddogaethau canlynol: cyfarwyddyd pensiynau, cyngor ar ddyledion, cyfarwyddyd ariannol a strategaethau gallu ariannol i alluogi pobl i gael y cyngor a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau da am arian.

Mae darparu cyngor a chymorth ar ddyled, cyfarwyddyd ariannol, a sgiliau gallu ariannol yn dod o dan y pynciau perthnasol yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y nodir uchod, a hynny mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant; ynghyd â hybu, dyrchafu a chymhwyso gwybodaeth (pwnc 5). Yn yr un modd, mae pwnc 4, datblygu economaidd, hefyd yn gymwys o ran adfywio a datblygu economaidd, gan gynnwys datblygu cymdeithasol mewn cymunedau. Yn ogystal, mae pwnc 15 yn gymwys, gan y bydd darparu cyfarwyddyd ariannol, cyngor ar ddyled, a sgiliau gallu ariannol yn cyfrannu at ddiogelu plant, llesiant plant a phobl ifanc, ynghyd â gofal plant, a gofalu am bobl agored i niwed a phobl hŷn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y darpariaethau ar gyfer cynllun seibiant rhag dyled (y diwygiadau'n ymwneud â seibiant yr ymdrinnir â nhw yn y Memorandwm Atodol), ystyrir bod y darpariaethau fframwaith arfaethedig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â phynciau 4, 5 a 15 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan mai prif ddiben y darpariaethau yw diogelu a chynorthwyo o ran dyled drwy sefydlu cynllun seibiant statudol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd sgiliau gallu ariannol o ran gwella gallu pobl Cymru i wneud penderfyniadau ariannol da ac osgoi mynd i ddyled argyfyngus. Er enghraifft, rydym wedi cynnwys addysg gallu ariannol yng nghwricwlwm ysgolion, a thrwy ein rhaglenni cyflogadwyedd cyfeirir unigolion at gyrsiau sgiliau rheoli arian i'w helpu i gael a chadw cyflogaeth.

Yn y Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor a'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, rydym hefyd wedi cydnabod rôl bwysig gwasanaethau cyngor lles cymdeithasol o ran cefnogi datblygu economaidd, gan gynnwys cyngor a chyfarwyddyd mewn perthynas â dyled ac arian. Er enghraifft, mae'n hysbys bod problemau lles cymdeithasol, megis dyled argyfyngus, yn cael effaith andwyol ar iechyd meddwl, a bod hynny, yn ei dro, yn rhwystr rhag cael cyflogaeth. Fodd bynnag, gall cymorth a chyngor liniaru hyn, a helpu person i ddod o hyd i gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant.

Hoffwn ddiolch i'ch Pwyllgor am ei waith yn ystyried y darpariaethau pwysig hyn. Maent yn cynnig buddion i ddinasyddion Cymru drwy greu sector cyngor mwy integredig a chydlynol. Edrychaf ymlaen at eich sylwadau ar y Memorandwm Atodol, a chawn gyfle i drafod y ddau Femorandwm yn y ddadl ar 13 Chwefror.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

National Assembly for Wales
Equality, Local Government and Communities Committee

Rebecca Evans AC
y Gweinidog Tai ac Adfywio

8 Rhagfyr 2017

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

Byddwch yn ymwybodol i'r Pwyllgor Busnes, ar 11 Gorffennaf 2017, gyfeirio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w ystyried. Gan fod elfennau o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, cafodd ei ystyried hefyd gan ein Pwyllgor ni.

Ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion, gan gynnwys y graddau y mae'r darpariaethau a nodir yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol o dan Addysg a Hyfforddiant, Llesiant Cymdeithasol, a datblygu economaidd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Nid oedd yr ymateb a gawsom yn egluro'r mater hwn. (Mae copïau o'r ddau lythyr wedi'u hatodi).

Wrth adrodd ar y memorandwm, gwnaethom ddatgan nad oedd rheswm pam y dylai'r Cynulliad wrthod y memorandwm, ond gwnaethom nodi y byddai'r Aelodau, o bosib, yn dymuno ceisio eglurder ar y mater hwn yn ystod y ddadl

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

berthnasol. Hyd yn hyn, ni chynhaliwyd dadl ar y memorandwm, felly rydym yn parhau i aros am eglurder ynghylch y mater hwn.

Cawsom lythyr gan y Pwyllgor Busnes ar 6 Rhagfyr yn gofyn a fyddai modd inni ystyried y memorandwm atodol erbyn 9 Ionawr. Yn ein cyfarfod ar 7 Rhagfyr, gwnaethom ystyried y cais hwn, gan gytuno i wneud ein gorau glas i sicrhau bod y memorandwm atodol yn cael ei ystyried mewn modd amserol. I'r perwyl hwn, byddwn yn rhoi'r mater ar yr amserlen ar gyfer ein cyfarfod ar 13 Rhagfyr, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rhoi ystyriaeth iddo cyn y Nadolig os caiff ei gyfeirio atom. Fodd bynnag, gan fod angen eglurder ynghylch un mater penodol, rydym yn gofyn ichi ddarparu eglurhad ysgrifenedig ynghylch y mater hwnnw cyn gynted ag y bo modd, ac erbyn 2 Ionawr fan pellaf.

Mae llythyr y Llywydd yn nodi y bydd amser ar gyfer gwaith craffu gan y pwyllgorau. Felly, rydym yn awgrymu bod amser yn cael ei neilltuo er mwyn ein galluogi ni i ystyried eich ymateb cyn cyflwyno adroddiad ar y mater hwn cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Credwn y gellid gwneud hyn pe bai'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei symud yn ôl i 16 Ionawr. Byddai hyn yn rhoi pedair wythnos busnes inni ystyried y memorandwm, sy'n llai na'r cyfnod o chwe wythnos y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo o ran y gwaith craffu a wneir ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol.

Yn gywir

John

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.